

PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

Dyddiad: Dydd Iau 21 Mehefin 2001
Amser: 2.00 to 5.00 pm
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

CYNLLUN CORFFORAETHOL ARFAETHEDIG CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU 2002-2005

(Nodyn gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru)

Cefndir

1. Ysgrifennwyd y nodyn hwn yng ngoleuni'r fformat a'r cynnwys a roed gan Glerc y Pwyllgor mewn llythyr a ddyddiwyd 18 Mai.

2. Cwblhaodd y Cyngor ei Gynllun Corffaethol arfaethedig ar gyfer 2002-2003 mewn Sesiwn agored o'r Cyngor ar 6 Mehefin. Cawsid trafodaeth anffurfiol am y Cynllun yn flaenorol gyda rhai o bartneriaid allweddol y Cyngor.

3. Mae'r Cynllun Corfforaethol llawn wedi cael ei gyflwyno'n awr ar gyfer cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. Gellir darparu copïau ar gais oddi wrth unrhyw un, a bydd y cynllun cymeradwy terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan CCGC. Mae CCGC wedi cyflwyno adroddiad llawn hefyd i'r Cynulliad Cenedlaethol am y perfformiad yn erbyn y targedau rhagnodedig ar gyfer y flwyddyn 2000/01.

Cyflawniadau Allweddol 2000/01

4. Newidiodd ffurf ein rhaglen waith am 2000/01 yn sylweddol yn ystod y flwyddyn er mwyn troi ein sylw at waith annisgwyl y bu'n rhaid ei wneud ar Gyfarwydddeb Cynefinoedd yr UE a gwaith ychwanegol ar Dir Gofal. Ar ddiwedd y flwyddyn, effeithiodd Clwy'r Traed a'r Genau ar y rhaglen hefyd.

5. Cyflawniadau allweddol y flwyddyn oedd:

GWARCHOD YR AMGYLCHEDD NATURIOL

- o Arnodi, gwneud arolwg, a mapio 92 o ymgeiswyr am Ardal Cadwraeth Arbennig (yACAau) gan gyflwyno 89 ohonynt i'r Comisiwn ar ôl cael ymgynghoriad cyhoeddus, a'r cydymffurfiad â'r gofynion yn gysylltiedig â chyllid strwythurol yr UE.
- o Ymwelwyd ag 817 o ffermydd gyda golwg ar gwblhau cytundebau Tir Gofal. Cyn diwedd y flwyddyn, arwyddwyd 470 o gytundebau a gwmpasai 49.000 hectar (gan ddiogelu llawer o gynefinoedd a oedd o dan fygythiad) a 145 o gytundebau eraill (a gwmpasai 14,000 hectar) yn cael, neu ar fin cael, eu harwyddo.
- o 33 o SoDdGau yn cael eu datgan neu eu hailddatgan, gan gynnwys 7 sy'n cynnal yACAau.
- o Cwblhau'r gwaith o fapio 58% o'n harfordir yn ôl y math o gynefin, a bydd hynny'n hwyluso rheolaeth yACAau Morol ac yn galluogi CCGC i roi cyngor perthnasol am y datblygiadau arfaethedig.
- o Symud ymlaen â'r gwaith ar dros 100 o Gynlluniau Gweithredu Cynefinoedd a Rhywogaethau fel ein cyfraniad ni i Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DG.

CEFNOGI DATBLYGIAD ECONOMAIDD CYNALIADWY

- Cyngori ynghylch tros 4000 o eitemau o astudiaethau achos, a gynhwysai gynigion datblygu, gan sicrhau eu bod yn gynaliadwy.
- Ymestyn gwaith ein partneriaeth ar LANDMAP i 15 o awdurdodau lleol; cydnabyddir pwysigrwydd hynny yn y Strategaeth Datblygiad Economaidd Genedlaethol fel "mecanwaith i sefydlu blaenoriaethau rhwng amgylchedd ac economi".
- Gweithio gyda chanllaw cynhwysfawr a gynhyrchwyd ac a ledaenwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac Asiantaeth Datblygu Cymru ar gymhwyso amcan croesdoriadol cynaliadwyedd amgylcheddol rhaglen Amcan 1.
- Sicrhau cymeradwyaeth i gael Ffordd Glyndŵr yn Drydydd Llwybr Cerdded Cenedlaethol a gweithio gyda chynigion a ddatblygwyd gan Gyngor Sir Powys, Bwrdd Twristiaeth Cymru a Chwmni Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru i hyrwyddo potensial economaidd y Llwybr.
- Dechrau cynllunio ar gyfer cyflwyno hawl mynediad i dir agored, gan gynnwys sefydlu'r Fforymau Mynediad Lleol cyntaf.
- Cyllido rhaglenni Awdurdodau Lleol i agor, rheoli a rhoi cyhoeddusrwyd i dros 500 km o Hawliau Tramwy Cyhoeddus (*Public Rights of Way – PROW*), gan ganolbwyntio ar lwybrau sy'n hwylus ar gyfer cysylltiadau cludiant cyhoeddus neu sy'n agos at y mannau lle mae pobl yn byw neu lle mae ymwelwyr yn aros.

GWEITHREDU DROS GYMUNEDAU IACHACH A MWY HYFYW

- Lansiwyd "Cerdded Llwybr Iechyd", menter a wnaed ar y cyd â'r British Heart Foundation.
- Ceisio am gyllid HLF ar gyfer y Menter Datblygu Cymunedol Balchder Bro gyda'r WCVA.
- Datblygu egwyddorion Cronfa Datblygu Amgylcheddol ar gyfer AHNEau mewn partneriaeth â'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Awdurdodau Lleol.
- Rhoi dros £12 miliwn i'r economi wledig i helpu i gynnal cymunedau gwledig, drwy reolaeth a chytundebau amaeth-amgylcheddol gyda thirfeddianwyr a'n rhaglenni eraill ni ar gyfer cymhorthdal grant.

Gweledigaeth CCGC ar gyfer y Dyfodol

6. Bydd CCGC yn cyhoeddi ei Weledigaeth ar gyfer y Dyfodol yn fuan. Mae hon wedi bod yn destun ymgynghoriad manwl a thrafodwyd y drafft terfynol gan y Cyngor mewn sesiwn cyhoeddus ar 6 Mehefin.

7. O fewn y 10 mlynedd nesaf, mae CCGC yn benderfynol o gyflawni

gwelliannau sylweddol i'r amgylchedd naturiol yng Nghymru a thrwy hynny wella ansawdd bywyd pobl yng Nghymru a gwella ansawdd y profiad a gaiff ymwelwyr â Chymru. Ein Gweledigaeth ar gyfer 2010 yw:

- Cymru sy'n fwy arbennig o ran cymeriad ei thirlun ac sy'n cynnwys mwy o bioamrywiaeth drwy, er enghraifft,

adfer cynefinoedd a nodweddion sydd wedi eu dinistrio

- Bod y tir a'r môr yn cynnal mwy o fywyd gwyllt a'u cynefinoedd
- Bod datblygiad economaidd yn parchu'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys ei agweddau hanesyddol a diwylliannol
- Cymru lle mae mwy o fynediad i'w phobl i gyd a'i hymwelwyr i gefn gwlad ac arfordir sy'n rhoi mwyniant a lles.

8. Ni allwn wneud hyn wrthym ein hunain. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth ac yn helpu i gynnal unigolion megis tîrffeddiawyr a defnyddwyr tir, busnesau, cyrff sector gwirfoddol a chyrrff cyhoeddus eraill. Mewn llawer o achosion bydd menter a gallu ein partneriaid yn hanfodol i sicrhau ein llwyddiant. Bydd cyflymder a maint ein cyflawniad yn dibynnu'n rhannol ar yr adnoddau sydd ar gael.

Cyflwyno'r weledigaeth – y Prif Sialensau ar gyfer y Tair Blynedd Nesaf

9. Amharwyd yn ddifrifol ar raglen waith gyfredol CCGC a llawer o'i bartneriaid gan Glwy'r Traed a'r Genau. Cafodd ein rhaglen i hysbysu SDdGA i gefnogi hysbysu'r yACA ei hoedi am y rhan orau o flwyddyn ac effeithiwyd yn ddifrifol hefyd ar y broses o dderbyn ymgeiswyr i Dir Gofal. Ein blaenoriaeth ar hyn o bryd yw adfer mynediad i gefn gwlad yn gyflym o dan amodau arweiniad milfeddygol y Cynulliad Cenedlaethol a bod mewn sefyllfa i ailafael yn ein gwaith gwarchod natur/Tir Gofal arferol cyn gynted ag sy'n bosibl.

10. Mae Atodiad 1 yn cyflwyno ein targedau gwaith allweddol ar gyfer 2001 i 2005. Mae hyn mewn gwirionedd yn grynodedb o'n Cynllun Corfforaethol. Y prif sialensau yw:

- Diogelu a gwella bywyd gwyllt a thirlun Cymru y mae'r diwydiant twristiaeth £2.2 biliwn yn dibynnu arno.
- Cwblhau rhaglen hysbysu'r SDdGA a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n briodol ynghyd â rheolaeth addas ar ein hymgeiswyr am ACA morol
- Dechrau gwaith ar Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ychwanegol
- Gweithredu'r hawl mynediad i gefn gwlad agored a gynhwysir yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
- Integreiddio Cynllun Datblygiad Cynaliadwy'r Cynulliad Cenedlaethol i galon ein prosesau cynllunio a gweithredu
- Datblygu potensial ein partneriaid drwy gefnogaeth dechnegol ac ariannol
- Gwella safon addysg amgylcheddol a dehongli ledled Cymru
- Cysylltu â holl bobl Cymru, mewn ardaloedd gwledig a threfol, i ennill eu cefnogaeth i gwrdd â'r sialensau a wynebwn.

11. Mae Atodiad 2 yn cyflwyno sut y bydd cyflawni pob un o'n targedau yn cyfrannu at amcanion y Cynllun ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy. Bydd rhywfaint o'n rhaglen waith yn cyfrannu at fwy nag un amcan.

12. Mae Atodiad 3 yn grynodedb ariannol o'n cynlluniau gwario ar sail cyllidebau a gynlluniwyd ar hyn o bryd. Mae'r adnoddau ychwanegol y gofynnwyd amdanynt yn adlewyrchu:

- Effaith Clwy'r Traed a'r Genau ar oedi'r rhaglen waith - £1 miliwn ar gyfer 2002/03
- Yr angen i ymuno ag Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill i adolygu caniatadau arllwys - £0.6 miliwn ar gyfer pob blwyddyn
- Yr angen i gynyddu ein cefnogaeth i Awdurdodau Lleol gyda chyfrifoldebau am AHNE - £0.25 miliwn am bob blwyddyn

Canran y cynnydd y gofynnir amdano yn y gyllideb am y flwyddyn nesaf yw 4%.

Partneriaethau

13. Mae gennym raglenni partneriaeth yn barod sy'n ymwneud â chyngor a chefnogaeth dechnegol yn ogystal â chymorth ariannol gyda:

- 22 o Awdurdodau Unedol – gweithredu eu strategaethau cefn gwlad
- 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol – cyngor ynghylch Cynlluniau Corfforaethol
- 5 AHNE – cynlluniau rheoli a'r Gronfa Datblygiad Amgylcheddol
- 9,000 o berchnogion SDdGA
- 1,000 o ddeiliaid cytundebau Tir Cymen a 470 o ddeiliad cytundebau Tir Gofal
- LINK Cymru a'i gyrrff cyfansoddol yn y sector gwirfoddol
- UCF, UAC, Cymdeithas y Tirfeddianwr

14. Rydym yn cael cyswllt rheolaidd a chynlluniau ar y cyd gyda'r Cynulliad Cenedlaethol, ADC, CC (FC)/MC (FE), BCB, WEFO, CGGC (WCVA), WEC, HLF a CCN (NOF).

15. Dyma rai enghreifftiau o gynlluniau ar y cyd sydd ar y gweill:

- Adroddiadau Cyflwr yr Amgylchedd gydag AA a CC a chynllun addysg amgylcheddol ar y cyd
- Cynllun Balchder Bro gyda CGGC (WCVO) a HLF
- Cynllun Cerdded Llwybr Iechyd gyda BHF a'r GCN
- *LANDMAP* gydag awdurdodau lleol
- Rheoli Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol gan bartneriaid

Mae cynlluniau partneriaeth newydd a argymhellir yn y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys cynlluniau grant newydd i:

- Gefnogi partneriaid drwy Gronfa Her Rhywogaethau i wneud gwaith ar ddiogelu rhywogaethau na wnaed hyd yma oherwydd prinder adnoddau
- Galluogi'r sector gwirfoddol i gael mynediad at Gyllid Strwythurol yr UE ar gyfer prosiectau rheoli cefn gwlad a rheoli'r arfordir
- Galluogi tirfeddianwyr i wella bywyd gwyllt, eto gyda chefnogaeth o Gyllid Strwythurol yr UE

Bwriedir contractio'r gwaith o reoli mwy o'n Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol i bartneriaid yn ogystal.

16. Erbyn diwedd 2004/05 yn seiliedig ar ffigurau cynllunio'r gyllideb ar hyn o bryd disgwylir y bydd y gefnogaeth ariannol a ddarparwn i bartneriaid wedi cynyddu o £12 miliwn yn 2000/01 i dros £25 miliwn yn 2004/05.

ATODIAD 1

Targedau Allweddol 2000-01

** Nodwch os gwelwch yn dda fod ffigurau a ddangosir mewn cromfachau ar gyfer 2001/02 yn cynrychioli targedau a

ddiwygiwyd o ganlyniad i Glwy'r Traed a'r Genau. Mae'r rhain yn tybio y gallwn ddechrau ar waith maes erbyn 1 Medi, os na fydd hyn yn bosibl bydd yn rhaid newid y targedau eto.

4.1 Gwell Ansawdd Bywyd

<u>Mecanwaith</u>	<u>Allbynnau</u>	<u>Targedau</u>	<u>Targedau</u>	<u>Targedau</u>	<u>Targedau</u>
	<u>2000-01</u>	<u>2001-02</u>	<u>2002-03</u>	<u>2003-04</u>	<u>2004-05</u>
<u>Diogelu Safleoedd Bywyd Gwyllt</u>				Gwaith hysbysu wedi'i gwblhau	
1. Hysbysu tir fel SoDdGA sy'n sail i ACA (yn dibynnu ar nawdd – gweler ceisiadau)		93(50)**	43		
2. Hysbysu SoDdGA ychwanegol					
3. Paratoi Datganiadau Rheoli Safle, yn ôl unol â Deddf CROW	}33	10(5)**	50	100	
4. Paratoi Cynlluniau Rheoli Safle ar gyfer SoDdGA	—	200	200	200	100
5. Sicrhau cytundebau rheoli ar SoDdGA	12	100	100	100	200
6. Môr, a ddynodwyd yn ACA o dan Rheoliad 34.	—			10,000ha	100
7. Mewn cydweithrediad â AAC, byddwn yn cwblhau cam 3 o'r Arolwg Caniatadau (yn dibynnu ar nawdd – gweler ceisiadau)	—	10,000 ha (5,000ha)** 194,000ha	10,000ha 3,170ha	1,000ha	10,000ha
8. Monitro ACA daearol i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli mewn ffyrdd sy'n diogelu bywyd gwyllt	—		50%	75%	
<u>Gweithredu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU</u>					100%
9. Cronfa her ar gyfer Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau dan Gynllun	—				

Gweithredu Bioamrywiaeth y DU

10. Cefnogi'r gwaith o baratoi a gweithredu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol

11. Bwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu'r 221 o gynlluniau gweithredu cynefinoedd a rhywogaethau sy'n berthnasol i Gymru dan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU

Manteision
Amgylcheddol trwy
Ffermio

12. Dod â thir dan reolaeth trwy Tir Gofal. Bydd hyn yn ein galluogi i ddiogelu, er enghraifft, y cynefinoedd dilynol, a nodwyd dan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU.

Gwarchod ein Harfordir

13. Arolygu'r arfordir i bennu data gwaelodlin ar gyfer cynefinoedd rhynglanwol.

Gwarchod Tirweddau

14. Cefnogi, gyda chymorth grant, awdurdodau lleol ychwanegol i ddechrau LANDMAP

15. Cynnal archwiliadau o'r Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol

19,000ha

(effaith fawr ar allbwn)**

19,000ha

19,000ha

19,000ha

10(5)**

15

25

35

12

16

20

24

130

140

155

165

175

	49,000ha	50,000ha	35,000ha	35,000ha	Targed yn dibynnu ar y gyllideb a osodwyd gan CCC
	58%	65.5%	78%	90%	100% (a'r adroddiad)
	15	20	25	Cwblhau pob Awdurdod Lleol	
	20	23(10)**	23	23	23

4.2. Gwell Iechyd a Lies

Mecanwaith	2000-01	2001-02	2002-03	2003-04	2004-05
<u>Mentrau Mynediad</u>					
16. Cefnogi gwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus a gwaith mynediad arall i barhau â'r shifft tuag at rwydweithiau sy'n gysylltiedig â chymunedau a thrafnidiaeth gyhoeddus	a	a	a	a	a
17. Sicrhau bod Hawliau Tramwy Cyhoeddus ychwanegol ar ffermydd Tir Gofal yn cael eu cynnal heb rwystr			231 milltir/	231 milltir/	Targed yn dibynnu ar y gyllideb a osodwyd gan CCC
-	344 milltir/ 554km	300 milltir/ 500km	350km	350km	
<u>Mentrau Iechyd</u>					
18. Hyrwyddo cynlluniau sy'n hybu iechyd a cherdded gan gynnwys Menter Cerdded Tuag at Iechyd Sefydliad Prydeinig y Galon					
19. Cefnogi cynnal a chadw a hyrwyddo Llwybrau Cenedlaethol Cymru					25
20. Gweithredu Deddf CROW:			15	20	
Ymgynghori/Apeliadau	-	15(10)**			
Paratoi Mapiau					
Isadeiledd Cymorth Grant i gefnogi mynediad agored					a
Rheoli Darpariaethau					

Gwaharddiadau a
Chyfyngiadau

a

a

a

a

a

a

a

a

a

a

a

a

a

a

a

4.3 Gwell Cyfleoedd ar gyfer Dysgu

Mecanwaith	2000-01	2001-02	2002-03	2003-04	2004-05

21. Datblygu strategaeth addysg amgylcheddol gydweithredol i Gymru, gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth.	–	a	a	a	a
22. Dadlau'r achos bod pob plentyn yng Nghymru'n cael ymweld â Gwarchodfa Natur Genedlaethol tra'i fod mewn addysg llawn-amser	–	a	a	a	a
23. Datblygu ac uwchraddio'r cyfleusterau dehongli ac addysgol yn ein Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol sy'n cael eu hymweld fwyaf, gan gynnwys cymunedau lleol yn y broses o 'ledaenu'r neges' a chynorthwyo twristiaeth leol.	2	5(4)**	5	5	5

4.4 Economi Gwell, Cryfach

Mecanwaith	2000-01	2001-02	2002-03	2003-04	2004-05
<i>Datblygu Cynaliadwy</i>					
24. Integreiddio Datblygu Cynaliadwy i brosesau Cynllunio CCGC	–	a	a	a	a
25. Datblygu cyngor i'r Cynulliad ar ei strategaeth i ddatblygiad ynni adnewyddadwy ar y tir ac ar y môr	–	a	a	a	a

<p>26. Ymateb i waith achos i sicrhau bod datblygiad yn gynaliadwy</p> <p>27. Darparu arbenigedd amgylcheddol i sicrhau bod thema drawstoriadol datblygu cynaliadwy yn cael ei chymhwyso wrth asesu prosiectau sy'n chwilio am nawdd strwythurol o Ewrop</p>	<p>Dros 4,000 achos y flwyddyn</p> <p>Parhau i ddarparu cyngor</p>
<p><i>Manteision Economaidd Cadwraeth</i></p> <p>28. Hyrwyddo datblygiad prosiectau Amcan 1 sy'n integreiddio cadwraeth â manteision economaidd (yn enwedig twristiaeth) a chreu swyddi</p>	<p>Ceisio gwneud y defnydd mwyaf o gymorth grant CCGC i ddenu nawdd o'r UE</p>

4.5 Llywodraeth Well a Symlach

Mecanwaith	2000-01	2001-02	2002-03	2003-04	2004-05

Datblygu Pobl

29. Gweithio tuag at Safon Buddsoddwyr Mewn Pobl

—

a

a

a

Materion Gwyrdd

30. Adolygu'r defnydd o ynni a dŵr yn y swyddfeydd

31. Gweithio tuag at ennill safonau ISO1401 yn swyddfeydd CCGC

—

a

a

a

a

32. Fflyd CCGC werdd

—

a

a

a

a

Gwell defnydd o dechnoleg

33. Datblygu'r isadeiledd TG ymhellach, gan sicrhau cydymffurfiaeth â tharged e-fusnes y Llywodraeth yn 2004.

—

a

a

a

a

Effeithlonrwydd

34. Datblygu a gweithredu strategaeth effeithlonrwydd

—

a

a

a

a

35. Datblygu a gweithredu strategaeth prynu ddiwygiedig sydd wedi'i hanelu at leihau costau cyffredinol gan 60K y flwyddyn ar ôl hynny.

a

a

a

a

					a
		a	a		

ATODIAD 2

GWAITH CCGC A CHYNLLUN DATLBYGIAD CYNALIADWY Y CYNULLIAD

(Sylwer. Rhoddir atodiad cyflawn gerbron y Cyngor, yn dangos y cysylltiad rhwng gwaith CCGC, targedau a Chynllun Datblygiad Cynaliadwy Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Amcan Cynllun Datblygiad Cynaliadwy	Gwaith CCGC	Targedau
Yr amgylchedd yn cael ei goleddu a'i ddiogelu, fel ei fod yn cadw'n iach ac yn amrywiol yn fiolegol, ac yn parhau i allu cynnal pob defnydd ohono	<p>1. Gwarchod safleoedd bywyd gwyllt a safleoedd daearegol.</p> <p>2. Gweithredu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DG yng Nghymru</p> <p>3. Gweinyddu cynllun amaeth-amgylchedd Tir Gofal</p> <p>4. Gwarchod tirluniau gan gynnwys partneriaeth gyda Pharciau Cenedlaethol ac AHNE</p>	<p>1, 2, 3, 4, 5, 6,</p> <p>7, 8, 12, 13, 15</p> <p>9, 10, 11</p> <p>12</p> <p>14</p>
Economi hunangynhaliol sy'n ymateb i gyd-destun amgylcheddol a chymdeithasol Cymru, ac yn ymateb i gyfleoedd Datblygiad Cynaliadwy	<p>1. Mewnbwn i'r system cynllunio i sicrhau bod datblygiadau yn gynaliadwy</p> <p>2. Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy o fewn CCGC a chyda'n partneriaid</p> <p>3. Gweithio mewn dull mwy gwyrdd</p>	<p>14, 26, 17</p> <p>16, 17, 20, 24, 25,</p> <p>28</p> <p>30, 31, 32, 33, 34,</p> <p>35</p>

<p>Gweithredu i gadw ein cymunedau'n gryf ac yn medru talu'u ffordd, a chadw pobl yn iachach</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Hyrwyddo mynediad i'r cefn gwlad 2. Rhaglen Datblygiad Cymunedol (e.e. cynllun Balchder Bro – Pride of Place gyda chymorth grant CCGC) 3. Gwasanaeth Ymgynghorol Cludiant 	<p>16, 17, 18, 19, 20, 22, 23</p>
<p>Pobl yn gallu cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Datblygu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol 2. Cyfarfodydd y Cyngor ar agor i'r cyhoedd ac yn symudol 3. Hyrwyddo dealltwriaeth amgylcheddol 4. Buddsoddwyr mewn Pobl 	<p>10 21, 22, 23 29</p>
<p>Cydnabod anghenion pob rhan o Gymru</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. CCGC yn cyflwyno ei wasanaethau yn ddwyieithog o rwydwaith o swyddfeydd lleol ar draws Cymru 2. Cynlluniau mynediad yn canolbwyntio ar rwydweithiau ger canolfannau poblogaeth 	<p>16</p>
<p>Cymru'n cyfrannu at Ddatblygiad Cynaliadwy ar lefel byd-eang yn ogystal ag yn lleol</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Cyllido gwaith y Cydbwyllgor Gwarchod Natur a'i waith cadwraeth rhyngwladol. 2. Staff CCGC yn darparu arbenigedd ynghylch cadwraeth yn arbennig i wledydd sy'n datblygu 	

ATODIAD 3

Gwybodaeth Gefndirol (Crynodeb o Gynllun Corfforaethol 2002/05)

Dyraniad Cyllideb Arfaethedig

£'000s

		2001-02	2002-03	2003-04	2004-05
Costau					
Cyffredinol					
	Gwaelodlin	15580	14185	14685	14685
	Newid o waelodlin rhaglen (1)		200	600	585
	Cyfanswm Costau Cyffredinol	1558	14385	15285	15270

CYLLIDEBAU A CHEISIADAU

Costau Rhaglen					
B	Cynnal a chadw Gwarchodfeydd	1465	1665	1965	1980
C	Diogelu Safle	2386	2836	3300	3720
C	Asiantaeth tir			100	100
D	Dehongli	1017	1187	1350	1500
E	Cefnogaeth Wyddonol & Pholisi	1798	2098	2398	2498
E	Hysbysu ACA	142	300	0	0
E	Monitro Morol		250	450	450
E	Monitro Daearyl		150	200	300
E	CGN	642	658	659	682
J	Cyfalaf	1109	1560	1659	1509
K	Prynu Tir	400	400	600	800
FGH	Grantiau	3204	4224	4897	5024
R	Tir Gofal	8880	11880	14880	14880
T	Tir Cymen	4815	4440	3290	2320
	Cyfanswm Costau'r Rhaglen	25858	31648	35748	35763
	Cyfanswm Gwaelodlin	41438	46033	51033	51033

Ceisiadau am Adnoddau Ychwanegol

Hysbysu ynghylch Safleoedd Bywyd Gwylt Ewropeaidd (ACA):

Costau Cyffredinol		1001			
Arolwg caniatadau:					
Costau cyffredinol	230	290	305	320	
Costau'r rhaglen	185	285	285	285	
Grantiau Tirwedd (AHNE)		250	250	250	
Cyfanswm ceisiadau	415	1826	840	855	

Cyfanswm y nawdd y gwnaed cais amdano:

Cotsau Cyffredinol	15810	15676	15590	15590
Costau'r Rhaglen	26043	32183	36283	36298
Cyfanswm	41853	47859	51873	51888

Nid yw'r Arolwg Caniatadau ar gyfer 2001-02 wedi'i gadarnhau eto:

Ceisiadau

Oherwydd Clwy'r Traed a'r Genau, ni fu'n bosib yn ystod 2001/02 i gwblhau'r gwaith hysbysu ynghylch y gyfres o safleoedd bywyd gwyllt gwarchoddedig Ewropeaidd, gan fod hyn yn cynnwys gwaith maes. Gwnaed cais ar gyfer £1 miliwn ar gyfer 2002/03 i gadw'r staff tymor penodol a chwblhau'r ymarfer sy'n cynnwys hysbysu 43 o SDdGA. Mae cais o oddeutu £600k y flwyddyn hefyd yn cael ei wneud i atgyfnerthu'r cyllid gwaelodlin ar gyfer yr Arolwg Caniatadau a fydd yn effeithio ar safleoedd Ewropeaidd, lle mae ceisiadau wedi'u gwneud am arian ychwanegol o CCC gan AA a CCGC ar gyfer 2001/02. Bydd hyn golygu y bydd CCGC mewn safle canolog, gan weithio mewn partneriaeth gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) ac awdurdodau cymwys eraill, gan roi cyngor a chymorth i adolygu'r caniatadau (gollyngiadau, echdynnu ac ati) ar safleoedd Natura 2000 i asesu eu heffaith ar nodweddion y safleoedd hyn ac argymhell camau adferol yn ôl yr angen. Yn olaf, cais am £250k i gryfhau ein cyfraniad i ddatblygu cynaliadwy yn nhirwedd Cymru, gan gynnwys cryfhau'r gefnogaeth i AHNE ac Awdurdodau Lleol sy'n ymwneud â *LANDMAP*. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i weithredu *LANDMAP* ledled Cymru ac i integreiddio elfennau cydrannol, gan helpu i greu system genedlaethol unedig. Byddwn ni hefyd yn ceisio darparu canllawiau gwell i Awdurdodau Lleol sy'n defnyddio *LANDMAP*. Bydd y cymorth ychwanegol a roddir gennym i AHNE yn ein helpu i ddiogelu tirwedd i'r un safon â'r Parciau Cenedlaethol.